

**Cofnodion cyfarfod misol Cyngor Cymuned Llanddona a gynhaliwyd Ebrill**  
**17ddeg 2024 am 7.00 o'r gloch.**  
**Minutes of Llanddona Community Council monthly meeting held on 17th April**  
**2024 7.00pm**

**Presennol/Present** – Cadeirydd Maldwyn Williams, Is-gadeirydd Mark Griffiths, Barbara Williams,, Dilys Williams, Harri Owen a Geraint Parry (Clerc / Clerk)  
Cynghorydd Sir / County Councillor – Alun Roberts

**1. Ymddiheuriadau/Apologies** - Gwennan Hughes, Tony Jones

**2. Cofnodion/Minutes**

Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 20fed o Fawrth fel rhai cywir gan Dilys Williams, eiliwyd gan Maldwyn Williams / *The minutes of the previous meeting held on 20th March were accepted as accurate by Dilys Williams, seconded Maldwyn Williams.*

**3. Datgan diddordeb rhagfarnol / Declaration of prejudicial interest**

3.1 Dim datgan diddordeb i ddatgan / *No declaration of interest to declare*

**4. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes**

- 4.1 Ardal Chwarae Plant - Clerc yn aros am bris am wneud cais chwynladdwr o amgylch yr ardal chwarae feddal. / *Children's Play Area - Clerk awaiting a price for applying weedkiller around the soft play area*
- 4.2 Cais Green Gym - aros am ganlyniad y cais. Nodwyd i drafod yswiriant yr offer / *Green Gym application - awaiting the outcome of the application. It was noted to discuss the insurance of the equipment.*
- 4.3 De-Fib - mae'r Clerc wedi cysylltu â Gwasanaeth Ambiwlans Gogledd Cymru a ddywedodd nad oes cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Cynghorir i ymweld â gwefan BHF am fwy o wybodaeth. Nodwyd bod yr OG wedi codi arian. Clerc i gysylltu â Menter Môn / *De-Fib - The Clerk has contacted North Wales Ambulance service who stated there is no funding for this financial year. Advised to visit BHF web site for further information. It was noted that the OG has raised funds. Clerk to contact Menter Môn.*
- 4.4 Traeth – Andy Godber o'r Cyngor Sir i fynychu ein cyfarfod ym mis Mehefin i drafod materion / *Beach - Andy Godber from the County Council to attend our June meeting to discuss matters.*
- 4.5 Hysbysfwrdd - Yn dilyn cyfarfod safle, penderfynwyd newid lleoliad yr hysbysfwrdd. Cynigiwyd lleoliad ger y fainc wrth Bro Dawel. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Adran Gynllunio, eglurodd y Clerc y byddai'r camau hyn yn gofyn am gais cynllunio newydd / *Noticeboard - following a site meeting, it was decided to change the location of the noticeboard. A location by the bench near Bro Dawel was proposed. Following a discussion with the Planning Department, the Clerk explained that this action would require a new planning application.*

**5. Adrodd gan y Cynghorwr Sir / Report by County Councillor – Alun Roberts**

- 5.1 Yn diolch am y gefnogaeth ynghylch y cais gan y Cyngor Sir i ymchwilio yn y posibilrwydd o gartrefi fforddiadwy yn y pentref / *Thanked for the support regarding the request by the County Council to research in the possibility for affordable homes in the village.*
- 5.2 Llythyr ymgynghori gan y Cyngor Sir - Mae'n ymddangos bod camgymeriad mapio wedi digwydd mewn perthynas â Llwybr Troed 8 - o Goch Meiri i Hen Felin. Roedd yr Aelodau'n unfrydol i gefnogi'r Cyngor Sir i wneud diwygiad i'r map diffiniol i gynnwys Coch Meiri i Ffordd y Traeth / *Consultation letter from the County*

*Council - It appears that a mapping error has occurred in relation to Footpath 8 - from Coch Meiri to Hen Felin. Members were unanimous to support the County Council to make an amendment the definitive map to include Coch Meiri to the Beach Road.*

- 5.3 *Cyfarfod ar y cyd â Chynghorau Cymuned eraill i drafod cyflwr ein ffyrdd - adran Priffyrdd yn cael rhagor o wybodaeth. Dyddiad cyfarfod i'w drefnu. / Joint meeting with other Community Councils to discuss the condition of our roads - Highways department obtaining further information. Date of meeting to be arranged.*
- 5.4 *Wedi gofyn i'r adran Priffyrdd lenwi tyllau a chodi arwyddion / Have requested the Highways department to fill potholes and erect sign.*
- 5.5 *Mae gwahoddiad i gynnal digwyddiad i gyhoeddi Eisteddfod Môn 2026 / An invitation is due to an event to proclaim Eisteddfod Môn 2026.*

## **6. Grugfa**

- 6.1 *Mae'r Clerc wedi anfon yr holl wybodaeth ymlaen / The Clerk has forwarded all the information.*

## **7. Difrod i dir comin / Damage to common land**

- 7.1 *Cyferbyn a Bwthyn Cherry Tree - nodwyd bod angen gwneud gwaith ailsefydlu pellach / Opposite Cherry Tree Cottage - it was noted that further re-instating work needs to be carried out.*

## **8. Hyfforddiant / Training**

- 8.1 *Clerc wedi dosbarthu'r amserlen hyfforddiant diweddaraf / Clerk has circulated the latest training timetable.*

## **9. Eglwysi / Churches**

- 9.1 *Mae'r Clerc wedi cysylltu â'r contractwr / Clerk has contacted the contractor.*
- 9.2 *Adroddwyd bod cwyn wedi'i gwneud ynglŷn â chyflwr wal Eglwys Sant Donna / It was reported that a complaint has been made regarding the condition of St Donna Church wall.*

## **10. Cwlwm Seiriol - Simon Hunt & Ben Scholes**

- 10.1 *Trafododd Simon y math o gynllun pori a'r gost dan sylw. Cyllid o bosib gan Gronfa Natur CNC ac Ynys Môn. Bydd y cynllun yn caniatáu pori am 12 wythnos o'r flwyddyn. Am y flwyddyn i ddod bydd y cynllun yn ariannu costau pori Ben. Ar gyfer y flwyddyn nesaf gallai'r Cyngor Cymuned fod yn atebol am ariannu'r prosiect. / Simon discussed the type of grazing plan and the cost involved. The plan will allow grazing for 12 weeks of the year. Potential funding could come from NRW and Anglesey Nature fund. For the coming year the scheme will fund Ben grazing costs. For next year the Community Council could be liable for funding the project.*
- 10.2 *Yn dilyn trafodaeth gyda'r sefyllfa ariannu, penderfynwyd yn unfrydol i gytuno ar gytundeb pori ar gyfer eleni. Cytunodd y bydd arwyddion yn cael eu codi i gynghori pori gwartheg ar y tir comin. / Following discussion with the funding situation, it was unanimously decided to agree a Grazing agreement for this year. It agreed that signs will be erected to advise of cattle grazing on the common.*
- 10.3 *Trafodwyd y gofyniad i brofi am glefyd TB er mwyn rheoli'r risg. Os bydd yr angen yn codi, cytunodd Ben i alinio'r prawf blynyddol ei hun / Discussed the requirement to test for TB disease in order to manage the risk. If the need arises Ben agreed to align the there own annual test.*

- 10.4 Eglurodd Simon ymhellach fod sesiwn wedi ei threfnu gyda'r gwirfoddolwyr i glirio ardaloedd o amgylch yr Hen Ysgol. Hefyd, mae'r arwyddion blodau gwyllt i'w codi. / *Simon further explained that a session has been arranged with the volunteers to clear areas around the Old School. Also the wildflower signs to be erected.*
- 10.5 Mae Oriol Ynys Môn yn cynnal arddangosfa o waith celf Kyffin Williams ar ardal Llanddona gyda digwyddiad yn cael ei gynnal ym mis Mai – Mehefin / *Oriol Ynys Mon are having an exhibition of Kyffin Williams artwork on the Llanddona area with event taking place in May – June.*

### **11. Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications**

- 11.1 HHP/2024/54 – Cyndel, Llanddona – cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu – dim gwrthwynebiad / *Full application for alterations and extensions – no objection.*
- 11.2 SCR/2024/20 – Brynteg Cottage, Tyn y Mynydd, Llanddona – nodwyd bod cais barn sgrinio ar gyfer dymchwel rhan o'r annedd / *Noted the application for Screening opinion for the partial demolition.*

### **Penderfyniad Cynllunio / Planning Decisions**

- 11.3 Dim penderfyniadau / *No planning decisions*

### **12. Cyfrifon / Accounts**

Cytunwyd yn unfrydol i dalu'r canlynol / *It was unanimously agreed to pay the following:-*

#### **Taliadau / Payments**

- 12.1 Yswiriant / *Insurance* - £368.11
- 12.2 **Incwm / Income:** -
- 12.3 Wayleave – Scottish Power - £12.37

### **13. Gohebiaeth / Correspondence**

- 13.1 Cyfarfod Pwyllgor ardal Ynys Môn / *Ynys Môn area committee meeting 4/04/24 @7pm*
- 13.2 Hyfforddiant Un Llais Cymru – Mawrth, Ebrill, Mai a Mehefin / *OVW Training – March, April, May and June*
- 13.3 Blaen rhaglen gwaith Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir / *The Executive forward work programme County Council*
- 13.4 Gweminar cyflwyniad i seiberddiogelwch ar gyfer Cyngorau Tref / *Cyber Security webinar for Town Councils*
- 13.5 Effaith newid cyflymder 20mya / *Effects of the 20 mph speed limit changes*
- 13.6 Apêl Eisteddfod Llangollen / *Llangollen Festival Appeal*
- 13.7 Noson Lawen Elusennol Maer Biwmares / *Beaumaris Mayor Charity Night – 26/04/24*

### **13 UFA / AOB**

- 13.1 Mae'r Cyngor Sir wedi symud y goeden oedd wedi cwmpo ar lwybr ceffylau / *The County Council have removed the fallen tree on the bridleway.*
- 13.2 Mynegwyd pryder ynglŷn â gweithgaredd rhai trigolion ym Maes Gwyn / *Concern was raised regarding the activity of certain residents in Maes Gwyn.*
- 13.3 Yn dilyn yr apêl gan fand Seindorf, ni dderbyniwyd unrhyw wybodaeth bellach / *Following the appeal from Seindorf band, no further information has been received.*
- 13.4 Meinciau - penderfynwyd cysylltu â chwmni lleol i gael amcangyfrif i'w atgyweirio / *Benches - it was decided to contact a local company for an estimate to repair.*

13.5 Mynychu cyfarfodydd - yn dilyn trafodaeth penderfynwyd y Clerc weithredu /  
*Attendance at meetings - following discussion it was resolved for the Clerk to  
action.*

**15. Dyddiad cyfarfod nesaf/Date of next meeting:**

Nid oedd mwy o fusnes i'w drafod. Daeth y cyfarfod i ben 21:00yh. Cyfarfod nesaf  
ar 15/05/24 am 19:00 / *There was no further business to discuss. Meeting ended  
21:00pm. Next meeting to be held on 15/05/24 at 19:00pm.*

Llofnod y Cadeirydd

Dyddiad